

## Adroddiad Blynyddol 2012 - 2013



Uned Gynradd newydd Ysgol Llanhari, agorwyd ym mis Medi 2012



## Cynnwys

---

1. Cynnwys	2
2. Amcanion RhAG	3
3. Adroddiad y Cadeirydd	4
4. Adroddiad ar y Siroedd	5
5. Cyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol	10
6. Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad	11
7. Adroddiad Ariannol	12
8. Canghennau Lleol	13
9. Cysylltu	14

### Swyddogion 2012/2013:

Cadeirydd:	Lynne Davies
Is-gadeirydd:	Lynne Griffin
Ysgrifennydd:	Gwag
Is-ysgrifennydd:	Gwag
Trysorydd:	Alan Lewis
Swyddog Cysylltiadau:	Tim Pearce
Swyddog Ymchwil:	Heini Gruffudd
Ymgynghorydd Cyfreithiol:	Michael Jones

## Pwy ydym ni?

---

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd a diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt gwerthfawr a hanfodol rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Derbyniwyd bellach egwyddorion sylfaenol RhAG ar lefel sirol a chenedlaethol, gan gynnwys dau beth allweddol:

- Yr angen am Strategaeth addysg Gymraeg
- Yr angen i fesur y galw am addysg Gymraeg

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd yn gyson ac yn cynrychioli rhieni ar sail cenedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisiau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd a swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisiau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol

## **Adroddiad y Cadeirydd**

---

Thema ein cynhadledd eleni yw “Strategaeth Addysg Gymraeg: profiadau llawr gwlad” ac mae’n bleser croesawu Gari Lewis yn ôl i’n hannerch, ynghyd ag Elin Maher (RhAG Casnewydd), y Cynghorydd Arfon Jones (RhAG Wrecsam) a Dr Dyfed Wyn Huws (YmgyrchTAG).

Mae hi wedi bod yn flwyddyn gyffrous arall gydag ymgyrchoedd lawer, ymatebion i ymgynghoriadau ac apeliadau cludiant a mynediad i ysgolion gydol y flwyddyn. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i fanteisio ar arbenigedd cyfreithiol Michael Jones, arbenigedd ymchwilio Heini Gruffudd ac arbenigedd cyfathrebu Tim Pearce. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Ceri Owen, sy’n llywio’r pwyllgor cenedlaethol trwy ymgynghoriadau lu, yn amlygu materion polisi sydd yn effeithio ar waith RhAG, rhoi cyngor i rieni ymhob cwr o’r wlad, llunio datganiadau i’r wasg a chydlynu pob agwedd o waith RhAG yn dra effeithiol.

Eleni, rydym wedi llwyddo o’r diwedd i sicrhau statws cyfreithiol i’r mudiad drwy cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Gobeithiwn y bydd hwn yn fodd i amlygu ffyrdd newydd o godi arian, a chyllido prosiectau newydd yn y tymor byr a’r hir dymor er mwyn ategu at waith arloesol ein Swyddog Datblygu. Rydym yn ddiolchgar iawn i’n Trysorydd, Alan Lewis, a drefnodd i’r WCVA brosesu taliadau cyflog RhAG, wedi i Menter & Busnes ein hysbysu nad oedd modd iddynt barhau gyda’u gwasanaeth. Trosglwyddwyd y cyfan yn ddi-drafferth ac yn hwylus iawn.

Mae’n bleser cofnodi bod ysgolion newydd wedi agor eu drysau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Ysgol y Cwm, Bon-y-maen Abertawe ac Uned Gynradd Ysgol Llanhari agorwyd ym Medi 2012. Datblygiadau calonogol yn wir.

Unwaith eto, bu grwpiau RhAG dros Gymru gyfan yn gweithio’n ddiwyd er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn eu hardaloedd, yn sicrhau fod lleisiau rhieni yn cael eu clywed fel rhan o amrywiol ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan awdurdodau ledled Cymru ac yn ymateb i ddatblygiadau ar lefel cenedlaethol.

Cafwyd cyfarfod buddiol rhwng aelodau RhAG (Ceri Owen, Lynne Davies & Elin Maher) gyda’r Gweinidog Addysg newydd – Huw Lewis AC – ym mis Tachwedd. Roedd yn galonogol clywed bod y Gweinidog yn disgwyl ymateb grymus gan yr Awdurdodau Lleol i arolygon y galw gan Awdurdodau Lleol. Er hyn, mae pryder mawr yn parhau ynglŷn â’r sefyllfa economaidd, toriadau cyllid, a goblygiadau adroddiad Hill ar drefniant addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae’n amlwg nawr nad oes modd i’r Llywodraeth gyrraedd ei nod o gael 25% o blant oed 7 mewn addysg Gymraeg erbyn 2015. Bydd yn ddiddorol hefyd gweld os gall ymgyrchoedd megis *Dewis* gyfrannu at hybu ymwybyddiaeth am addysg Gymraeg.

Edrychaf ymlaen at groesawu Cadeirydd newydd y flwyddyn hon, tra’n parhau i weithio gyda phwyllgor RhAG dros y blynyddoedd nesaf.

Lynne Davies, Cadeirydd Cenedlaethol, Tachwedd 2013

## **Adroddiad ar y Siroedd 2012-2013 (detholiad o'r siroedd)**

---

### **ABERTAWE**

Bu'r flwyddyn yn un o gadarnhau enillion. Yn ddiweddar sefydlwyd ysgolion cynradd newydd yn Nhreforys a Bon-y-maen, ac mae'r rhain wedi tyfu i fod yn llawn a mwy na llawn fesul blwyddyn. Bu datblygiadau ym Mhont-y-brenin, yn bennaf yn rhai dros dro, ac edrychwn ymlaen at wireddu cynllun i gael ysgol Gymraeg ychwanegol yn Nhregwyr. Mae gwaith ar y gweill i godi ysgol newydd sbon ar safle ysgol Gymraeg gyntaf Abertawe, Lôn-las. Mae RhAG gyda chymorth rhai o'r ardal, y Fenter Iaith, Twf a Mudiad Meithrin wrthi ar hyn o bryd yn cychwyn ymgyrch i gael ysgol Gymraeg yn ardal Cwmbwrla-Trefansel i lenwi bwlch amlwg yng nghanol y ddinas. Methiant fu'r ymdrech i gael ysgol Gymraeg yng ngogledd Gwyr. Bu'r ysgolion Cymraeg yn hynod lwyddiannus, a Bryn Tawe ar frig dau dabl yn mesur cyraeddiadau ysgolion Cymru gyfan. Edrychwn ymlaen at gydweithio â chyfarwyddwr addysg newydd o Gymro.

Heini Gruffudd

### **BLAENAU GWENT**

Mae'n hysbys i lawer bod AALI Blaenau Gwent wedi cael adroddiad beirniadol iawn gan Estyn, ac felly bu o dan arweiniad comisiynwyr ers hynny. Ar ddiwedd 2012 awgrymwyd dosbarth "egin" ysgol yn Nhredgar, lle mae cylchoedd Meithrin eisoes mewn bodolaeth. Danfonwyd ffurflenni arolwg allan i rieni plant o'r oedran priodol ar ddechrau Rhagfyr, i'w dychwelyd erbyn canol mis Ionawr. Ni chafwyd ymateb gref, er bod dros 50%, o'r ychydig atebodd, wedi datgan eu bod yn ffafrio Addysg Gymraeg. Yn sgil yr ymateb llipa hwn, dilewyd yr awgrym, er mawr siom i ni. Serch hynny, rydym newydd gael cyfarfod gyda James Harris, Prif Swyddog Addysg Blaenau Gwent a Chasnewydd, ac mae wedi addo ail-edrych ar y sefyllfa yng ngoleuni arolwg newydd yn nhymor yr haf 2014. Felly y dasg nawr yw hysbysu rhieni bod Addysg Gymraeg ar gael iddynt, ond bod rhaid iddynt fynnu'r hawl amdani.

Meryl Darkins

### **CAERDYDD**

Bu'r flwyddyn yn un o weld enillion yn dwyn ffrwyth ond hefyd o orfod gwynebu cyfnod hesb a llawn treialon. O'r diwedd cafodd Ysgol Treganna safle ardderchog, digonol i gwrdd â'r galw; yn ôl y cynllun golygodd agor Treganna 3 ffrwd a chau'r atodiad dros dro sef Tan-yr-eos, oedd wedi'i lleoli yn Grangetown. Roedd Tan-yr-eos wedi denu plant o Grangetown a phrofi'r angen am ysgol yn yr ardal, angen oedd i'w ddiwallu erbyn 2015 trwy agor ysgol newydd yno a hwnnw'n gynllun oedd eisoes wedi derbyn sêl bendith y Gweinidog ac a gynhwyswyd yn rhaglen "Ysgolion 21ain Ganrif" Cyngor Caerdydd. Yn y gwanwyn cyhoeddodd y cyngor bapurau ymgynghorol mewn 4 ardal o'r ddinas. Roedd y cynllun yn ardaloedd Sblot, Adamsdown, De Rhath a Thremorfa yn

cynnig ychwanegu 2 ffrwd at y ddarpariaeth Saesneg rhag ofn y byddai'r ysgolion yn mynd yn llawn erbyn 2015, a hynny heb gynnig unrhyw ychwanegiad at yr ysgol Gymraeg lle roedd 40 yn flynyddol yn ceisio y 30 lle ar gael. Yn Nhrebiwt unwaith eto y cynnig oedd i helaethu'r ysgol Saesneg heb sôn am y ddarpariaeth Gymraeg. Ar gyfer Ysgol Gymraeg Pwll Coch (yn ardal Treganna) cynigiwyd gadw yno y drydedd ffrwd "dros dro" am gyfnod amhenodol tra'n gohirio am gyfnod amhenodol y cynllun i agor ysgol newydd yn Grangetown. Bu gwrthwynebiad ffyrnig o gyfeiriad y rhieni. Ymateb y sir ar sail rhifau hollol gyfeiliornus oedd i gyhoeddi cynllun i agor yr ysgol newydd yn Grangetown fel un Saesneg a gwneud y ffrwd dros dro yn barhaol. Tua'r un amser a hynny ar ôl oedi am flwyddyn, penododd y sir Gyfarwyddwr Addysg newydd - Sais o Fryste - heb brofiad o system addysg Cymru sydd wrth gwrs wedi bod ar wahan i system Lloegr ers 1999.

Pasiodd y Cabinet gynllun newydd ond pan ddaeth gerbron y pwyllgor craffu cymaint oedd y gwallau fel y bu iddynt dynnu'r cynllun yn ôl er mwyn gwneud arolwg newydd o'r galw am addysg Saesneg a Chymraeg a chyflwyno adroddiad yn y flwyddyn newydd, hyn i gynnwys y sefyllfa yn Sblot lle oedd RhAG wedi trefnu gwrthwynebiad statudol i gynllun y sir

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynllun i helaethu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sectorau cynradd nac uwchradd. Fe symudodd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern i'w hadeiladau parhaol fis Medi ac mae gwaith wedi dechrau ar eu haddasu. Ar hyn o bryd mae addysg gynradd Gymraeg yn wynebu cael un ffrwd yn llai i dderbyn plant Medi 2014 am fod Pwll Coch yn ysgol derbyn dwy ffrwd o Fedi 2014 ymlaen ac mae perygl gwirioneddol na fydd modd derbyn y plant i gyd, gan mai dim ond 3 ysgol oedd â lleoedd gwag eleni.

Michael Jones

## **CAERFFILI**

Cyn i ni gael amser i ddathlu agor Ysgol Uwchradd Gymraeg y Gwyndy yn nhref Caerffili yn iawn, mae galwadau am fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn pentyrru. Cafwyd rhybudd digon clir yng Nghwm Ebwy dair blynedd yn ôl gyda'r datganiad bod union ddwywaith cymaint o blant wedi'u derbyn i'r Feithrin ag a oedd ym Mlwyddyn 6 yn Ysgol Cwm Gwyddon, Abercarn. Ac felly mae'n anodd gweld sut y gellir diwallu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg y flwyddyn nesa yn ardal Rhisga.

Cael a chael bu hi i ddod o hyd i le ar gyfer pob un plentyn oedd yn dymuno lle mewn Ysgol Gymraeg yn y sir, yn gyffredinol. Methwyd dod o hyd i le ar gyfer dau neu dri phlentyn, yn bennaf am nad oedd lle ar gael iddynt yn yr ysgol a oedd yn ddewis cyntaf eu rhieni. Ac mae dwy o ysgolion newydd canol y sir, Ysgol Bro Sannan yn Aberbargod a Chwm Derwen yn Oakdale bellach yn llawn. Croesawn bennaeth newydd i Ysgol y Lawnt, Rhymni. Ac mae Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn hanner cant eleni, er colli rhannau o'r dalgyrch yn eithaf rheolaidd, eto'n agosáu at ei llawn faint.

Gydag addysg uwchradd bellach ar gael o fewn ardal tref Caerffili, cynyddu gwnaiff y galw am leoedd yn Ysgol Ifor Bach, Abertridwr, Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol y Castell er bod y tair ysgol yn llawn yn barod. Problemau, felly, sy'n deillio o lwyddiant.

Ben Jones

## **CASNEWYDD**

Er cael addewid ers misoedd am ddatganiad am gefnogaeth i Addysg Uwchradd i Dde Gwent, nid oes sôn wedi bod ers Gorffennaf. Yr ydym yn deall y bydd y datganiad yn dod cyn pen dim ac mae yna deimladau gwleidyddol wedi eu datgan mewn ambell ardal o'r ddinas sy'n arwydd fod yna drafodaethau yn digwydd ar rhyw lefel o leiaf. Mae'r addewid am wybodaeth benodol yn y Strategaeth Addysg Gymraeg erbyn Rhagfyr yr 20 yn galonogol ond rhaid gwthio i sicrhau y bydd hyn yn cael ei wireddu er mwyn i amserlen cynllunio ac agor yr ysgol gael unrhyw obaith o weld y drysau'n agor ym Medi 2016.

Mae sefyllfa'r Ysgolion Cynradd a chyn-ysgol o leiaf yn sefydlogi yn y lleoliadau newydd, Mae dosbarthiadau meithrin a derbyn dwy ysgol yn llawn a lle i ond 9 o blant yn nosbarth Meithrin Bro Teyrnnon yn Ionawr 2014. Mae'n argoeli'n dda ar gyfer niferoedd derbyn y 3 ysgol ym Medi 2014 ac yn barod mae'n argoeli y byddwn yn agos iawn at niferoedd llawn mewn 4 ffrwd ym Medi 2014.

Bu rhaid i un cylch Meithrin ad-leoli eleni a achosodd anscrewydd mawr. Mae'r sector hwn yn yn poeni'n arw ar nifer o lefelau - diffyg staff cymwys ac ansefydlogrwydd systemau rheoli gwirfoddol y Cylchoedd Meithrin. Mae astudiaeth yn mynd i gael ei gynnal gan RhAG Gwent dros y misoedd nesaf i edrych ar yr heriau gyda'r gweithlu gan adrodd ein canfyddiadau'n ehangach i weithio'n strategol i sicrhau bod parterniaid y sector yn cynllunio'n bwrpasol i anghenion y gweithlu yn lleol fel y gallwn sicrhau darpariaeth cyn ysgol cadarn i'r disgyblion cyn cyrraedd ein hysgolion.

Elin Maher

## **GOGLEDD DDWYRAIN POWYS**

Sefyllfa Hydref 2012. Wedi cynnal holiadur o farn rhieni yng ngwanwyn 2011, yr unig un ers 1989, roedd rhieni eisiau trafod gyda'r Awdurdod. Y swyddogion yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y gwleidyddion. Deiliad portffolio addysg gwreiddiol yn gwrthod trafod a'r deiliad newydd (Mai 2013) sef, y Cyng. M.Alexander yn trefnu cyfarfodydd ac yna'n gohirio ar y funud olaf deirgwaith.

Tachwedd 2012. Powys yn gwyrddroi penderfyniad yn dilyn arolwg 2011 i ganoli addysg cyfrwng Cymraeg chweched dosbarth yng Nghaereinion. Dim ymgynghori â rhieni. Cadeirydd y Cabinet yn gaddo cyfarfod ond heb wneud. Prif Weithredwr y Sir yn trefnu cyfarfod gyda Cyng. M. Alexander, mewn 2 fis.

Rhagfyr 2012. Yr awdurdod yn cyhoeddi 'Strategaeth newydd i hybu Addysg Gymraeg'. Ni chafwyd unrhyw drafodaeth gyda rhieni. Ail-sefydlu'r polisi diffygiol sydd wedi bodoli ers 1989.

Ionawr 2013. Cyfarfod Cyng. M. Alexander. Yn gwrthwynebu sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ddim yn derbyn y dystiolaeth.

Chwefror 2013 Wedi ail-gyflwyno'r cais gwybodaeth cyfaddefodd Powys nad oedd ystadegau yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ganddynt yn ganolog wedi'r cwbl.

Mawrth 2013 Cyhoeddi fod Ysgol Carno i gau. Rhieni yn profi bod ystadegau'r Awdurdod yn wallus. Yr Awdurdod yn gwyrddroi'r argymhelliad. Trefnwyd cyfarfod gyda swyddogion a chynghorwyr i drafod addysg ymhen 2 fis.

Mai 2013 Gohiriwyd y cyfarfod funud olaf. Powys yn cadarnhau bod Ceredigion bellach yn gyfrifol am Addysg Gymraeg ond Ceredigion yn gwrthod trafod gyda rhieni.

Mehefin i Fedi 2013. Cyng. M.Alexander yn anwybyddu nifer o geisiadau i gyfarfod rhieni.

Hydref 2013. Powys yn cynnal 'mesur y galw statudol' cyfyngedig. Oherwydd blerwch canolog daeth i'r amlwg fod nifer sylweddol o rieni heb dderbyn holiadur. Yr arolwg yn cael ei ohirio.

Rh. ap Rh. Owen

## **RhCT**

Cafwyd agoriad swyddogol i uned gynradd newydd Ysgol Llanhari ym mis Mai. Mae'r uned wedi bod yn derbyn plant ers Medi 2012 ac mae'r ddau ddsbarth sydd yno erbyn hyn yn gyfforddus lawn. Mae'r agoriad yn un ffactor sydd wedi lleihau'r pwysau ar ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir. Ni welwyd plant yn methu cael eu derbyn ar gyfer 2013 fel sydd wedi digwydd ar achlysuron yn y 5 neu 6 mlynedd diwethaf.

Serch hyn mae Rhag RCT o hyd yn pwyso am ysgolion newydd ar draws y sir, ac yn mynnu mai ffactor arall am leihad bach yn y galw yw pryderon rhieni am ddiffyg lleoedd. Mae'r gangen yn dal i weld angen am ysgolion newydd yn ne'r sir a Chwm Cynon, ail adeiladu Ysgol Tonyrefail gyda lleoedd ychwanegol, ac i gynyddu'r ddarpariaeth yn ardal y Porth. Er bod bwriad gyda'r cyngor yn y cynllun 'Ysgolion 21G' i ymgymryd â phob un o'r rhain, ar wahan i ysgol yn ne'r sir, rydym yn parhau i aros am unrhyw ddatganiadau pendant.

Yn mis Hydref eleni cafwyd datganiad gan yr awdurdod eu bod yn bwriadu torri'r ddarpariaeth meithrin 3 mlwydd oed o ddiwrnod cyfan i hanner. Bu hyn ergyd i rieni. Er bydd y sefyllfa wedi'r toriad yn debycach i'r ddarpariaeth ar draws rhannau helaeth o Gymru, mae RhAG yn pryder caiff hyn effaith negyddol ar addysg Gymraeg. Bydd plant o gartrefi di-Gymraeg yn cael 1/2 diwrnod yn llai o'r iaith yn ystod oedran sy'n allweddol i ddatblygiad ieithyddol plentyn. Yn ogystal mae risg sylweddol o golli plant o'r sector gan na fydd trafndiaeth i'r dosbarth meithrin, a bydd hyn yn gwneud ysgolion Cymraeg yn llai deniadol i nifer gan fod y pellteroedd teithio yn fwy nac i'r ysgolion lleol cyfrwng Saesneg.

Dafydd Roberts

## **SIR FYNWY**

Ar ôl hir aros, mae ysgol uwchradd newydd i'r ardal yn yr arfaeth. Cafwyd cyfarfod adeiladol iawn gyda Phrif Swyddog Addysg newydd y sir a disgwylir i'r ysgol uwchradd newydd agor i blant blwyddyn 7 ym mis Medi 2016, gyda lle i ehangu i wrth i'r ysgol dyfu. Bydd hwn yn dod ag addysg uwchradd yn agosach, gobeithio, i blant yn Ne Sir Fynwy, ac yn rhyddhau lle yng Ngwynllyw i blant o Ogledd y Sir. Disgwylwn ddatganiad cyhoeddus am hyn yn y dyfodol agos. O safbwynt yr ysgolion cynradd, mae Ysgolion y Fenni a'r Ffin yn ffynnu, gyda 29 o blant yn nosbarth derbyn Y Ffin eleni (4 dros y nifer statudol). Mawr obeithiwn weld digon o blant yn ymgeisio blwyddyn nesaf i warantu agor ysgol gynradd newydd (yn Nhrefynwy, Brynbuga?) cyn bo hir. Disgwylwn addewid o ysgol uwchradd newydd er mwyn cynyddu'r galw am addysg Gymraeg yn gyffredinol.

Lynne Davies



## **TORFAEN**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae RhAG Torfaen wedi codi ei broffil gydag amrywiaeth o weithgareddau yn yr ardal. Mae RhAG Torfaen wedi cefnogi teuluoedd lle mae plentyn wedi cael gwrthod lle mewn Ysgol Gymraeg ble mae plentyn o'r un teulu yn mynychu'n barod. Yn y ddau achos a ymladdwyd yn hir ac yn galed cawsom ganlyniad llwyddiannus diolch i gefnogaeth Pencadlys RhAG yng Nghaerdydd.

Mae RhAG Torfaen hefyd wedi cefnogi teuluoedd lle gwrthodwyd lle i blant yn eu hysgol Gymraeg leol, bu rhai o'r apeliadau'n llwyddiannus, ond nid pob un yn anffodus. Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus iawn yng Nghwbrân gan RhAG Torfaen, Mudiad Meithrin a Menter BGTM i hyrwyddo addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd sydd â phlant o dan 3 oed. Trefnwyd stondin yn 'Nigwyddiad Mawr' Cwbrân a Charnifal Pont-y-pŵl gan RhAG Torfaen, Mudiad Meithrin a Menter BGTM i hyrwyddo addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a darparu gwybodaeth i deuluoedd.

Ar hyn o bryd mae RhAG Torfaen yn ymgyrchu i gael ail Ysgol Gymraeg yng Nghwbrân er mwyn datrys y broblem o orlenwi ar safle'r ddarpariaeth bresennol. Mae Cyngor Torfaen yn bwriadu agor adeilad newydd gyda 420 o leoedd ym Mhanteg ym Medi 2015 i gymryd lle'r Ysgol Panteg presennol, ond mae Cyngor Torfaen yn beio'r diffyg cynnydd ar Lywodraeth Cymru am nad ydynt hyd yma wedi rhyddhau'r cyllid. Mae'r dyddiad agor, sef Medi 2015 yn dechrau edrych yn amheus, ac os na fydd yr ysgol yn agor ar amser gallai hyn gael effaith ddifrifol oherwydd na fydd digon o leoedd yn Nhorfaen i ateb y galw am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Glyn Davies

## **WRECSAM**

Agorwyd chweched Ysgol Gynradd Gymraeg yr awdurdod ym mis Medi 2013, sef Ysgol Bro Alun, Gwersyllt. Ar hyn o bryd mae 58 o ddisgyblion yn yr ysgol, a hynny yn y Meithrin a'r Derbyn. Mae ysgolion Plas Coch, Bodhyfryd a Hooson yn llawn dop, gyda chydig o lefydd yn Bryn Tabor a Min y Ddol. Tan yn ddiweddar roedd Min y Ddol mewn mesurau arbennig ac effeithiodd hynny'n eithaf sylweddol ar y niferoedd. Mae rhai o'r plant sy'n byw yn Ne'r Sir hefyd yn mynychu ysgol Gymraeg Llangollen sydd yn Sir Ddinbych. Yn Nyffryn Ceiriog mae tair ysgol Ffederal lle mae ffrwd Gymraeg a Saesneg. Ar y cyfan ychydig o blant a gollir i'r sector cyfrwng Saesneg oherwydd diffyg lleoedd gwag.

Nid yw'r sefyllfa yn y sector Uwchradd mor addawol gan mai un ysgol sy'n gwasanaethu'r Sir, sef Ysgol Morgan Llwyd, fydd yn llawn erbyn 2016/17. Hyd yma mae cyfarfodydd y Fforwm Addysg Cymraeg wedi bod yn siomedig, gan nad oes unrhyw gynllunio wedi bod ar gyfer y sector Uwchradd, diffyg ewyllys gwleidyddol yn gyffredinol a'r ffocws wedi bod fwy ar y Gymraeg fel ail iaith yn ysgolion Saesneg y Sir. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael ei baratoi ar hyn o bryd wedi i'r hen gynllun gael ei feirniadu.

Arfon Jones

## **Cyfarfodydd RhAG Gwent**

Yn ystod y flwyddyn penderfynwyd y byddai'n fuddiol i ganghennau RhAG yr yr ardal gyfarfod ar y cyd dan faner RhAG Gwent. Mae'r cyfarfodydd wedi profi'n fuddiol er mwyn rhannu gwybodaeth traws-sirol a chyd-gynllunio ein ymgyrchoedd fel rhanbarth.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

---

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

24.5.12      2.7.12      17.9.12      4.2.13

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: **1 Rhagfyr 2012**

Erbyn hyn mae'r drefn o gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol wedi hen ymsefydlu. Cynhelir y cyfarfodydd yn fisol, fel arfer ar drydydd nos Lun y mis, a hynny ar ffurf cylchdaith mewn amrywiol ardaloedd, sydd fel arfer yn cynnwys Pencoed, Caerdydd a Maesaleg ger Casnewydd. Cynhelir y cyfarfodydd am 7.30 y.h. Gellir darllen y cofnodion ar ein gwefan: <http://www.rhag.net/dogfennauc.php>

### **Digwyddiad Dathlu 60 mlwyddiant RhAG**

**O'r fesen, derwen a dyf: Dathlu 60 mlwyddiant RhAG a thwf addysg Gymraeg**  
3 Hydref 2012 yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Noddwyd y digwyddiad yn drawsbleidiol gan Angela Burns AC; Simon Thomas AC; Keith Davies AC ac Aled Roberts AC a chafwyd araith gan Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Roedd yr arlwy'n cynnwys eitemau cerddorol gan ysgolion Bryn Tawe, Pwll Coch, Cymer a Glantaf gyda Caryl Parry Jones yn arwain. Dangoswyd ffilm unigryw oedd yn gywaith o waith nifer o'r ysgolion, cafwyd darlleniad gan yr actor adnabyddus Richard Harrington o gerdd a gomisiwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru, yn ogystal â lansio atodiad i'r gyfrol *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgol Gymraeg 1939-2000* yn crynhoi datblygiadau yn y maes ers 2000.

### **Eisteddfodau a gwyliau cenedlaethol**

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg 2012 – cafwyd gofod ar stondin Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a chlwstwr ysgolion cynradd Cymraeg yr ardal.

Hoffai RhAG ddiolch i'r ysgolion am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod.

### **Cyfarfod Cyhoeddus RhAG**

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg 2012  
Dydd Gwener 10fed Awst am 2 yp

'Addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg: Yr heriau i Gymru'

Trafodaeth gan banel o siaradwyr amrywiol dan gadeiryddiaeth Tim Pearce.

Siaradwyr:

- Dr Dylan Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
- Menna Jones Roberts, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol 3-19 oed Bro Morgannwg a Nant Talwg
- Cyng. Steffan Wiliam, Cyngor Bro Morgannwg

## **Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

---

### **Cyfarfodydd gydag ACau / ASau:**

Simon Thomas AC, Llefarydd Addysg Plaid Cymru  
Aled Roberts AC, Llefarydd Addysg Democratiaid Rhyddfrydol  
Alun Cairns AS

### **Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru:**

4/4/12          29/10/12          13/2/13

### **Cyfarfod gyda Meri Huws Comisiynydd y Gymraeg: 6 Awst 2012.**

### **Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg**

Mae cynrychiolaeth gan RhAG yn eistedd ar y canlynol:  
Blaenau Gwent, Caerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, CNPT, Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam.

### **Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Iaith**

Caerdydd; Torfaen, Mynwy a Blaenau Gwent; Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr

### **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Trawsbleidiol ar y Gymraeg gyda MDG yn darparu'r ysgrifenyddiaeth.

### **Cronfa Glyndŵr**

Mae Swyddog Datblygu yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd ar foreau Sadwrn bob chwarter.

## Adroddiad Ariannol 2012-13

14 Ebrill 2013

### RhAG – ADRODDIAD ARIANNOL BA 12/13

Mae'r swm yn cynnwys tanwariant am Flwyddyn Ariannol 11/12 o £1933.25 ac fe welir manylion y gwariant yn yr atodiad. Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru cafwyd caniatâd i'w wario ar ddiweddarau adnoddau Swyddog Datblygu RhAG a datblygiad proffesiynol y Swyddog.

	£	p
<b>Mewn Llaw ar 1 Ebrill 2012</b>	<b>6,759</b>	<b>57</b>
<b>Derbyniadau 1 Ebrill 12 – 31 Mawrth 2013</b>		
Tâl Aelodaeth	1,679	50
Grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg	34,183	00
Ffioedd Cyfarfod Blynyddol	0	00
Eraill	0	00
Llóg	0	00
<b>Is-gyfanswm Derbyniadau</b>	<b>35,862</b>	<b>50</b>
<b>Cyfanswm Derbyniadau BA 2012/13</b>	<b>42,622</b>	<b>07</b>
Costau Cyflogi Swyddog:		
Costau Tâl	26,606	04
Costau Rhedeg y Swydd	2,143	42
Pensiwn	1,904	88
Teithio	2,087	87
Treuliau	708	13
Ffôn Symudol	220	00
Cynhyrchu RhAGolwg	1,409	00
Rhedeg Gwefan RhAG	0	00
Cynadleddau a Chyfarfodydd	125	00
Eraill	95	00
Costau Cyrsiau	534	00
<b>Cyfanswm Gwariant BA 2012/13</b>	<b>35,833</b>	<b>34</b>
<b>Mewn Llaw ar 1 Ebrill 2013</b>	<b>6,788</b>	<b>73</b>

Atodiadau

1. RhAG – MANYLION GWARIANT Y TANWARIANT O BA 11/12 – 14 Ebrill 2013.

**RhAG – MANYLION GWARIANT Y TANWARIANT O BA 11/12**

	£	p
<b>Costau datblygiad proffesiynol Swyddog Datblygu</b>		
Cyfrannu RhAG at ffioedd cwrs MA Polisi a Chynllunio leithyddol gyda Phrifysgol Bangor	534	00
<b>Costau atgyweirio/uwchraddio adnoddau'r Swyddog Datblygu</b>		
<b>Technoleg Gwybodaeth</b>		
Novatech nSpire N1538 with Windows 7 Pro & Office 2013 Home/Bis	664	99
LOGIK 15LAPC12 16" Laptop Case	19	99
Asus Google Nexus 7" 32GB, Android 4.1 Tablet	199	00
Poetic HardBack Protective Case for Google Nexus 7 Tablet	10	95
Google Nexus 7 high quality touch screen stylus	1	50
<b>Adnoddau swyddfa</b>		
Cwprdd i'r swyddfa	142	74
Cyfanswm Gwariant y Tanwariant o BA 2011/12	1,573	17

## Canghennau Lleol - Cysylltiadau

Sir	Enw	Ffôn	E-bost
Abertawe	Heini Gruffudd	01792 455410	heinigruffudd@btinternet.com
Gwent	Alun Tomos		alun_tomos@hotmail.com
Blaenau Gwent	Meryl Darkins		meryl.darkins@btinternet.com
Bro Morgannwg	Tim Pearce	01446 19294	t.j.pearce@ntlworld.com
Caerdydd	Nona Gruffudd-Evans		mathew.nona@ntlworld.com
	Michael Jones		mikeandethni@gmail.com
Casnewydd/Newport	Elin Maher	01633 243700	elin.maher@ntlworld.com
Castell-nedd/Neath Port Talbot	I'w lenwi		
Caerffili	Ben Jones	029 2086 2428	benamary2000@yahoo.co.uk
Mynyw/ Monmouthshire	Lynne Davies		lynne.davies@cancer.org.uk
Pen-y-bont/Bridgend	Mal John	01656 650071	maljohn1@hotmail.com
Powys (Aberhonddu / Pontsenni)	Lynne Griffin		lynne@griffinrally.com
Porth Tywyn	Rachel Davies		rachelrees-hughes@hotmail.co.uk
Buallt (Llanfair-ym-Muallt a'r Cylch)	Stephen Mason		coednorth@tiscali.co.uk
Rhondda Cynon Taf	Dafydd Roberts		dafydd@glancreigiau.plus.com
Dinefwr (Dyffryn Tywi)	Cefin Campbell		cefin@sbectrwm.com
Torfaen	Glyn Davies		Glyndavies47@aol.com
Wrecsam	Arfon Jones		arfon55@btinternet.com



## Cysylltu

---

Ceri Owen  
Swyddog Datblygu  
Rhieni dros Addysg Gymraeg  
Tŷ Cymru  
Greenwood Close  
Parc Busnes Porth Caerdydd  
Caerdydd  
CF23 8RD

02920 739207  
07912175403  
[ceri@rhag.net](mailto:ceri@rhag.net)

[www.rhag.net](http://www.rhag.net)

Facebook: <http://www.facebook.com/rhieni.gymraeg>

Trydar: @RhAG1